OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 433

## Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013

**Datganiad y pennaeth**

**6.** Rhaid i'r pennaeth, o fewn 7 niwrnod ysgol i'r dyddiad a nodir yn amserlen y PT ar gyfer darparu i Weinidogion Cymru neu i'r SCYA yr wybodaeth y cyfeirir ati yn erthyglau 3(3)(b), 4(3)(b) a 5(3)(b), ddarparu datganiad i'r swyddog monitro, wedi ei lofnodi gan y pennaeth, sy'n cadarnhau—

(a) i'r PC gael eu rhoi yn unol â darpariaethau'r ddogfen y cyhoeddir hwy ynddi;

(b) i'r PC gael eu rhoi yn ystod y cyfnod amser a bennir yn amserlen asesu'r PC;

(c) i'r PC gael eu rhoi yn unol â llawlyfr gweinyddu'r PC; a

(d) i ymatebion y disgyblion i'r PC gael eu marcio yn unol â chynllun marcio'r PC.